Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Bro Gwaun**
**Heol Dyfed**
**Abergwaun**
**Sir Benfro**
**SA65 9DT**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| | |
|---|---|
| Hywel Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Gareth Kiff | Arolygydd Tîm |
| Sion Peters-Flyn | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Bro Gwaun wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ebrill 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig ymhlith bechgyn

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2012, mae'r ysgol wedi gwella ei pherfformiad ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y mwyafrif o'r dangosyddion allweddol yn 2016 yn gosod yr ysgol naill ai yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn o ran y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella dros wyth pwynt canran o gymharu â ffigurau 2015. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad o ran y dangosydd pwnc craidd yn 2016 wedi gwella dros naw pwynt canran o gymharu â ffigurau 2015, ac mae'n gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad o ran trothwy lefel 2 wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac mae bellach yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella hefyd, er bod yr ysgol yn parhau yn y 50% is o ysgolion tebyg.

O ran trothwy lefel 1, mae perfformiad wedi gwella'n gyson ers yr arolygiad craidd ac, ar sail data dros dro, 2016 yw'r flwyddyn gyntaf i'r holl ddisgyblion gyrraedd y trothwy hwn.

Er 2014, bu gostyngiad yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*- A yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, bu tuedd o wella yn gyffredinol yn y pynciau craidd yn unigol ar lefel 2.

Ar sail data dros dro, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella'n sylweddol yn 2016, gyda chynnydd o bron i 12 pwynt canran o gymharu â deilliannau 2015. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi amrywio ers yr arolygiad craidd. Mae data dros dro yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn 2016, ac mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad mewn mathemateg wedi gwella yn 2016. Fodd bynnag, mae'r deilliant hwn yn dal i osod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi parhau i adeiladu ar y gwelliant sylweddol a wnaed mewn gwyddoniaeth yn 2015. Ar sail data dros dro, mae deilliannau yn 2016 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella bob blwyddyn ers yr arolygiad craidd. Mae perfformiad yn 2016 ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg am yr ail flwyddyn yn olynol.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n well mewn Saesneg a mathemateg yn parhau islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, ac mae'n gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg ar y lefelau uwch islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Mae strategaethau'r ysgol i wella perfformiad bechgyn wedi cael effaith gadarnhaol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, am y tro cyntaf ers yr arolygiad craidd, fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched o ran y dangosydd pwnc craidd yn 2016, ac mae eu perfformiad yn gyson â'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn yn y teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad bechgyn a merched wedi gwella o ran bron pob un o'r dangosyddion yn 2016. Mae perfformiad bechgyn wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad craidd yn y dangosyddion allweddol sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae perfformiad bechgyn mewn Saesneg wedi gwella dros 18 pwynt canran yn 2016, ac mae hyn wedi cyfrannu at welliant cadarn o ran trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd. Ym mron pob un o'r dangosyddion, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi lleihau.

Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella o ran yr holl ddangosyddion allweddol ers yr arolygiad craidd. Llwyddodd pob un o'r disgyblion hyn i gyflawni trothwy lefel 1 yn 2016, ac fe wnaeth y rhan fwyaf gyflawni trothwy lefel 2.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, mae ffigurau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd diwethaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Ym mhob un o'r gwersi bron, mae disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith. Mae'r disgyblion hyn yn canolbwyntio'n dda yn barhaus ac yn dangos parch at ei gilydd a'u hathrawon. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn parau a grwpiau. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol at sefyllfaoedd newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n llawn ac yn mynegi'u hunain yn glir ac ystyriol. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol, ac maent yn dibynnu gormod ar yr athro.

**Argymhelliad 2: Gwella ansawdd llawysgrifen, cyflwyno a sillafu disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd gwerthfawr wrth wella safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion. Bellach, mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o athrawon o lawysgrifen disgyblion a chyflwyniad eu gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith ac, erbyn hyn, mae cyflwyniad eu gwaith o safon uchel.

Mae llawer o athrawon ar draws yr ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd sillafu'n gywir yn effeithiol. Ceir adnoddau defnyddiol ym mron pob un o'r ystafelloedd dosbarth i helpu disgyblion wella eu sillafu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn amlygu camgymeriadau sillafu sylfaenol yn rheolaidd yn eu marcio, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau ymyrryd effeithiol i wella sillafu a llawysgrifen disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys y clwb llawysgrifen a sesiynau llythrennedd â ffocws. Ceir meini prawf clir ar gyfer nodi disgyblion y mae angen y lefel hon o gymorth arnynt ac ar gyfer olrhain eu cynnydd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r help hwn, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cwmpas a thrylwyredd hunanarfarnu**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i gynyddu cwmpas a thrylwyrder hunanarfarnu. Mae hunanarfarnu mwy effeithiol, a chynllunio dilynol ar gyfer gwella, wedi cyfrannu at welliannau ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn agweddau pwysig eraill fel ansawdd yr addysgu.

Erbyn hyn, mae darlun cliriach a mwy cywir gan arweinwyr ar bob lefel o gryfderau a gwendidau'r ysgol.  O ganlyniad, gallant flaenoriaethu meysydd allweddol ar gyfer gwella yn fwy effeithiol.  Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr, yn enwedig ar lefel uwch, ddealltwriaeth well o ddata ac maent yn defnyddio hyn yn dda i olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac i weithredu ymyriadau amserol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o strategaethau defnyddiol i lunio barnau gwybodus ynglŷn â gwaith yr ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau o wersi, craffu'n rheolaidd ar waith disgyblion a chynyddu cyfleoedd i gael barnau disgyblion.  Mae adolygiadau adrannol a gynhelir gan uwch arweinwyr yn gryno a ffocysedig, ac yn rhoi arfarniad defnyddiol o lawer o agweddau ar waith pob adran.  Fodd bynnag, nid yw'r holl arweinwyr yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob un o'r prosesau hyn.  O ganlyniad, mae eu gallu i lunio barnau gwybodus yn gyfyngedig.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn ddogfen fwy onest ac arfarnol nag mewn blynyddoedd blaenorol.  Mae'n cynnwys dadansoddiad addas o berfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol, ac mae'n nodi diffygion pwysig yn briodol.  O ganlyniad, mae'r adroddiad yn darparu sail gadarn ar gyfer cynllunio gwelliant.

Mae arfarniad cyffredinol yr ysgol o ansawdd yr addysgu yn fwy cywir ac mae'n nodi cryfderau a gwendidau cyffredin yn briodol.  Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn defnyddio techneg holi yn effeithiol i archwilio ac ehangu dealltwriaeth disgyblion.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynnig lefel dda o her i ddisgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uwch o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.  Mae llawer o athrawon yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion ac yn eu galluogi i weithio'n dda yn annibynnol.  Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddiadau ac nid yw dealltwriaeth disgyblion yn cael ei gwirio'n ddigon trylwyr.

Mae llawer o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cynnwys dadansoddiadau priodol o ddata ac yn ystyried ystod addas o dystiolaeth.  Fodd bynnag, mae ansawdd adroddiadau hunanarfarnu adrannol, a chynlluniau gwella canlyniadol, yn rhy amrywiol.  Mae mwyafrif o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhy ddisgrifiadol o hyd, ac nid yw ychydig o gynlluniau gwella yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn ddigon da.

**Argymhelliad 4:  Gwella cysondeb ac effaith marcio**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd effeithiol wrth wella cysondeb ac effaith marcio.  O ganlyniad, mae ansawdd y marcio ac adborth i ddisgyblion wedi gwella, ac mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a'u cynnydd mewn gwersi.

Mae llawer o athrawon yn cymhwyso'r polisi marcio diwygiedig yn gyson ar draws yr ysgol.  Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau tasgau ac yn darparu sylwadau defnyddiol ar sut i wella ansawdd eu gwaith.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o sylwadau athrawon yn canolbwyntio'n ddigonol ar feysydd allweddol i'w gwella.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i sylwadau athrawon, ac mae ychydig yn ymateb yn effeithiol.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddo i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae'r defnydd o strategaethau marcio i ymestyn disgyblion o allu uwch yn mynd yn ei flaen yn addas.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd, ac nid yw wedi cael effaith ar safonau eto.

Erbyn hyn, mae arweinwyr yn monitro cymhwyso'r polisi marcio ysgol gyfan yn fwy trwyadl.  Maent yn arfarnu perfformiad athrawon ac adrannau unigol, ac yn nodi meysydd priodol i'w gwella.  Mae athrawon yn cael adborth perthnasol wedyn, a chymorth i wella eu harfer.  Dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn, fodd bynnag, ac mae'n rhy gynnar i fesur ei effaith ar ansawdd marcio ar draws yr ysgol.

**Argymhelliad 5:  Datblygu rôl llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yr ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu rôl ei llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol.

Mae panel craffu'r corff llywodraethol yn darparu fforwm gwerthfawr i lywodraethwyr asesu cynnydd yr ysgol yn erbyn ei chynllun datblygu.  Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth gywir i lywodraethwyr yn awr, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.  Mae llywodraethwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio'r ysgol yn briodol ym mhob agwedd ar ei gwaith.

Erbyn hyn, mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda gan lywodraethwyr o gryfderau adrannau unigol a'r meysydd i'w gwella.  Mae panel gwella'r ysgol yn derbyn arfarniadau cynhwysfawr ac onest o berfformiad yr ysgol gan arweinwyr canol.  O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn cynnig her fynych a buddiol i arweinwyr yr ysgol.

Mae rôl llywodraethwyr cyswllt wedi'i sefydlu'n dda.  Maent yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau buddiol fel mynd am droeon dysgu, craffu ar waith disgyblion a chyfarfodydd adrannol.  O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn wybodus iawn ynglŷn â'r safonau a'r cynnydd yn eu hadrannau dynodedig.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.